**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000**

## Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â grantiau ar gyfer adnewyddu tai'r sector preifat o dan bennod 1 o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ("y Ddeddf").

Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ("y prif Reoliadau") yn nodi'r prawf moddion ariannol ar gyfer penderfynu swm y grant adnewyddu a'r grant cyfleusterau i'r anabl y gellir eu talu i geiswyr sy'n berchen-feddianwyr a chesiwyr sy'n denantiaid o dan ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf.

Newidiwyd y prif Reoliadau yn Lloegr gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Lloegr) 2000 a chan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygiad Rhif 2) (Lloegr) 2000 ("Rheoliadau Lloegr"). Mae Rheoliadau Lloegr yn gwneud diwygiadau sy'n bennaf yn ganlyniadau i newidiadau a wnaed i Reoliadau Budd-dâl Tai (Cyffredinol) 1997 y mae'r prawf moddion ariannol wedi'i seilio arnynt. Ceir rhai mân ddiwygiadau a diwygiadau drafftio eraill hefyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgorffori'r diwygiadau hynny drwy gyfeirio at Reoliadau Lloegr.

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio'r weithdrefn frys ar 30 Mawrth 2000.

## Rheol Sefydlog 11.5

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

## Sylwadau Cyffredinol

Bydd yr Aelodau'n sylwi bod y Rheoliadau yn deddfu drwy gyfeirio at Reoliadau Lloegr. Er na fu hyn yn arfer rheolaidd hyd yn hyn, nid oes iddo unrhyw oblygiadau cyfreithiol anfanteisiol.

## Y Nodyn Esboniadol

Awgrymir y gellid defnyddio "prawf modd ariannol" yn y testun Cymraeg yn lle "prawf moddion"

ar gyfer "means test" i helpu’r darllenydd lleyg (gan fod gan "moddion" ar ei ben ei hun gysylltiad agosach o bosibl â "meddyginiaeth").

**Rheoliad 2**

Hepgorwyd y gair "Regulations" o "Housing Renewal Grants (Amendment No. 2) (England) Regulations 2000" yn y testun Saesneg.

**M. GERMAN OBE AM**
**Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfau**
**11 Ebrill 2000**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

**TAI, CYMRU**

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1966 ("y prif Reoliadau") yn gosod y prawf moddion ar gyfer penderfynu swm y grant adnewyddu a’r grant cyfleusterau anabl y caiff awdurdodau tai lleol eu talu i geiswyr sy’n berchennog-feddianwyr a cheiswyr sy’n denantiaid o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2000 No. (W. )**

**HOUSING, WALES**

**The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2000**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note does not form part of the Regulations)*

The Housing Renewal Grants Regulations1996 ("the principal Regulations") set out the means test for determining the amount of renovation grant and disabled facilities grant which may be paid by local housing authorities to owner-occupier and tenant applicants under Chapter I of Part I of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Lloegr) 2000 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Lloegr) 2000 yn gymwysadwy i Gymru. Mae'r Rheoliadau hynny yn gwneud diwygiadau i'r prif Reoliadau sy'n ganlyniad i'r newidiadau i Reoliadau Budd-dâl Tai (Cyffredinol) 1987 y seiliwyd y prawf moddion arnynt.

These Regulations make applicable to Wales the provisions of the Housing Renewal Grants (Amendment) (England) Regulations 2000 as amended by the Housing Renewal Grants (Amendment No. 2) (England) Regulations 2000. Those Regulations make amendments to the principal Regulations which are consequential upon changes to the Housing Benefit (General) Regulations 1987 upon which the means test is based.

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**2000 Rhif (Cy. )**

**TAI, CYMRU**

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000

*Wedi'u gwneud 30 Mawrth 2000*

*Yn dod i rym 3 Ebrill 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(3) a (4), 30, 31(5) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 **(a)** ac a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru**(b).**

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**– (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 3 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.

**S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S**

**2000 No. (W. )**

**HOUSING, WALES**

**The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2000**

*Made 30 March 2000*

*Coming into force 3rd April 2000*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 3(3) and (4), 30, 31(5) and 146(1) and (2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996**(a)** which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales**(b)**.

**Citation, commencement and application**

**1.**– (1) These Regulations may be cited as the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 3rd April 2000.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Diwygiadau**

**2.** Mae'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996**(c)** gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Lloegr) 2000**(ch)** fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) 2000 **(d)** i gael effaith yng Nghymru mewn perthynas â cheisiadau am grant a wneir ar 3 Ebrill 2000 neu wedi hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(e)**.

30 Mawrth 2000

Llywydd y Cynulliad

Cenedlaethol

**Amendments**

**2.** The amendments made to the Housing Renewal Grants Regulations 1996**(c)** by the Housing Renewal Grants (Amendment) (England) Regulations 2000**(d)** as amended by the Housing Renewal Grants (Amendment No. 2) (England) 2000**(e)** shall have effect in Wales in relation to applications for grant made on or after the 3rd April 2000.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(f)**.

30 March 2000

The Presiding Officer

of the National Assembly

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1996 p. 53.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O. S. 1999/672).

(c) O.S. 1996/2890, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, 1997/977, 1998/808, 1999/1523 a 1999/3468.

(ch) O.S. 2000/531.

(d) O.S. 2000/ .

(e) 1998 p. 38.

(a) 1996 c. 53.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1996/2890, amended by S.I. 1996/3119, 1997/977, 1998/808, 1999/1523 and 1999/3468.

(d) S.I. 2000/531.

(e) S.I. 2000/ .

(f) 1998 c. 38.